VALE of GLAMORGAN BRO MORGANNWG	Grŵp Llywio Aelodau – Prosiect Gwyrdd Ystafell Bwyllgor 1 Swyddfeydd Dinesig
	CYFARFOD – 12 MEDI 2007

Yn Bresennol:

Mr. C. Parish, Cyngor Bro Morgannwg
Mr. R. Lambourne, Cyngor Sir Caerdydd
Mr. M. Punter, Cyngor Bro Morgannwg
Mr. A. Jenkins, Cyngor Bro Morgannwg
Ms. M. Sinfield, Cyngor Sir Caerdydd
Y Cyng. D. Poole, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Y Cyng. G. Jones, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Y Cyng. R. Curtis, Cyngor Bro Morgannwg (Cadeirydd)
Mr. S. Davison, Cyngor Dinas Casnewydd
Mr. S. Phillips, Cyngor Sir Caerdydd
Y Cyng. E. Morgan, Cyngor Sir Caerdydd
Mr. M. Williams, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Y Cyng. E. Saxon, Cyngor Sir Fynwy
Mr. D. Harris, Cyngor Sir Fynwy
Y Cyng. A. Webb, Cyngor Sir Fynwy

Ymddiheuriadau: Derbyniwyd gan:

Y Cyng. Truman, Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cyng. Guy, Cyngor Dinas Casnewydd
Y Cyng. N Moore, Cyngor Bro Morgannwg
Y Cyng. M Stephens, Cyngor Sir Caerdydd

Eitem	Cofnodion	Camau Gweithredu
1	**Cyflwyniadau** Fel Cadeirydd cyfarfod cyntaf y Grŵp Llywio cyntaf, croesawodd Y Cyng. Curtis bawb, gan ddatgan nad oedd unrhyw ddatganiad o fwriad wedi codi.	
2	**Ethol Cadeirydd**	

	Yn dilyn pleidlais gan yr Aelodau presennol Etholwyd Y Cyng. D Poole yn Gadeirydd y Grŵp Llywio ar gyfer y cyfnod hyd at etholiadau nesaf llywodraeth leol ym mis Mai 2008. Mae angen ystyried ethol is-gadeirydd o hyd i ddirprwyo'r cadeirydd mewn cyfarfodydd yn y dyfodol os oes angen. Cytunwyd bod angen paratoi cyfansoddiad mwy ffurfiol i'r Grŵp Llywio ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol.	
3	**<u>Lleoliad ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol</u>** Cyfarfodydd y dyfodol i fod bob deufis, gan gylchdroi'r lleoliad rhwng y pum awdurdod. Cytunwyd bod 5.00pm yn amser dechrau boddhaol ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol. Cytunwyd hefyd y byddai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn gartref i'r cyfarfod nesaf.	
4	**<u>Cyflenwi rheoli gwastraff cynaliadwy wrth Weithio mewn Partneriaeth</u>** Cyflwynodd Mr. C. Parish a Mr. M. Williams y cyflwyniad. Gweler y daflen amgaeedig.	CP/MW
5	**<u>Trafodaeth aelod</u>** Ni chafwyd unrhyw sylwadau/trafodaeth yn cyfeirio'n uniongyrchol at gyflwyniad y Swyddogion. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau fod yna ddiddordeb wedi ei fynegi gan Flaenau Gwent a Chyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen i ymuno â Phrosiect Gwyrdd. Ond roedd Bwrdeistrefi Merthyr a Rhondda Cynon Taf yn gweithio ar wahân ac wedi bod yn ystyried llunio consortiwm ar y cyd. Teimlwyd y byddai lle i uno gyda'r uchod yn y dyfodol o dan yr amgylchiadau cywir, ac wrth fanylu ar y gallu i drin twf mewn gwastraff byddai hynny'n caniatáu awdurdodau lleol eraill i ymuno â'r bartneriaeth ar sail ffi giât, ond ar ddyddiad diweddarach. Holodd Y Cyng. Poole ynghylch y posibilrwydd o ddyddiad	

	cau wrth ystyried partneriaid newydd, efallai y byddai Mawrth 08 yn unol â therfyniad amser dangosol y cyflwyniad. Er y derbyniwyd y byddai dyddiad cau yn ymddangos, cytunwyd y byddai'r ddeialog yn parhau ynghylch ehangu'r grŵp yn y cyfamser. Awgrymodd Mr. M. Punter ei bod hi'n bwysig bod y bartneriaeth yn cynnwys CLILC/Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. Cadarnhawyd fod yr awdurdodau partner eisoes wedi bod mewn trafodaethau gyda'r uchod, a bod cyfarfod yn digwydd ar 18 Hydref 2007 gyda Gweinidog Amgylchedd y Cynulliad, Jane Davidson. Cytunwyd bod y bartneriaeth yn ysgrifennu at Lywodraeth Cynulliad Cymru cyn bod y cyfarfod yn digwydd.	
6	**Drafft Partneriaeth/Memorandwm Dealltwriaeth** Dosbarthwyd y Memorandwm Dealltwriaeth arfaethedig i'r Aelodau er gwybodaeth ac iddynt wneud sylwadau arno yn ddiweddarach yn y cyfarfod. Teimlodd Aelodau fod Memorandwm Dealltwriaeth yn hanfodol i gaffael arian yn y dyfodol. Nodwyd fod cyfanswm o 400K wedi ei dderbyn yn barod oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Rhoddwyd gwybod i Aelodau fod y ddogfen derfynol wrthi'n cael ei pharatoi. (Gweler drafft diweddaraf amgaeedig). Roedd pwerau dirprwyedig wedi eu derbyn ar gyfer y Memorandwm Dealltwriaeth i'w arwyddo gan bob awdurdod. Gofynnwyd i Aelodau ystyried dogfen ddrafft y Memorandwm Dealltwriaeth cyn y cyfarfod nesaf. Disgwylir y byddai'r ddogfen orffenedig yn barod i'w harwyddo erbyn cyfarfod nesaf y Grŵp Llywio.	
7	**Cyfathrebu â Llywodraeth Cynulliad Cymru** Fel y cadarnhawyd uchod yn 5.	
8	**Cystadleuaeth Logo Ysgolion** Dywedwyd wrth yr Aelodau fod Logo Prosiect Gwyrdd i gael ei ddatblygu yn dilyn cystadleuaeth logo ysgolion cynradd.	

	Byddai ysgolion cynradd unigol y bartneriaeth yn cynnal cystadlaethau ar wahân i gynhyrchu logo arbennig i'r project gydag enillwyr unigol pob awdurdod yn cynnig am y rownd derfynol ranbarthol. Bydd y logo buddugol yn cael ei fabwysiadu fel logo Prosiect Gwyrdd i'w ddefnyddio gan bawb ar yr ohebiaeth a'r deunydd hyrwyddo i gyd. Detholiad panel, terfyniad amser - yn dilyn canlyniadau hanner tymor oddi wrth ysgolion unigol, ffeinal Nadolig.	
9	**<u>Unrhyw Fater Arall</u>** Nid oedd unrhyw fater arall i'w drafod. Dyddiad y cyfarfod nesaf: Cytuno ar ddyddiad terfynol. Caerffili fydd lleoliad y cyfarfod nesaf	

Dosbarthu: Rheolwr Gwastraff
Miles Punter - Pennaeth y Gwasanaeth Gweladwy